SUL CYFFREDIN 7

1 BRENHINOEDD 19:1-4 [5-7] 8-15A;
SALMAU 42–43; GALATIAID 3:23-29; LUC 8:26-39

● **Gweddi agoriadol**
Drindod gogoneddus,
gwna ni yn ymwybodol
o'th bresenoldeb yn y lle hwn
drwy ein haddoli a'n gweddi.
Boed i'r rhai na allant fod yma
o achos tostrwydd
neu amgylchiadau
dy adnabod,
er mwyn i bawb gael eu bendithio
gan dy bresenoldeb,
Drindod gogoneddus.

● **Moliant**
Dduw y daeargryn,
y gwynt a'r tân,
datguddi dy hun
yn y cyffredin
a'r anghyffredin,
mewn bywydau prysur byw bob dydd
ac mewn arwyddion a rhyfeddodau
sy'n ein hysgwyd i'n seiliau.
Clywir
gogoniant dy fawrhydi
yn sibrwd tyner
awel y gwanwyn,
ac yn rhu erchyll
y ddaeargryn.

Boed i'n clustiau a'n meddyliau
fod ar agor i'r posibilrwydd
dy fod yn siarad â ni,
a boed i'n calonnau
fod yn effro i'th alwad.

● **Cyffes**

Y bore hwn
a phob bore,
wrth i ni wynebu diwrnod
a ofnwn o achos disgwyliadau
a osodir arnom gan eraill,
yn drwm gan feichiau,
yn ansicr o beth ddaw,
ein gwrthwynebu,
  yn unig,
    yn ofnus,
atgoffa ni
i ti wynebu hyn
  a mwy,
er mwyn i ni ddod yn rhydd
o'r cadwyni sy'n ein clymu,
a chodi uwchlaw
  a'r tu hwnt
i drafferthion ein byd
a phrofi gwir heddwch
yn dy freichiau.

● Diolch

Gwnaethost gymaint drosom,
a ninnau eto heb ddweud wrth y byd
mor fawr yw ein Duw.

Paid â gadael i ni anghofio
yr iachâd a'r maddeuant a brofasom.
Paid â gadael i ni anghofio
ôl dy droed, lle dilynwn ninnau.
Paid â gadael i ni anghofio
yr hedyn cariad a heuwyd yn ein calonnau.
Paid â gadael i ni anghofio
dy drugaredd pe crwydrem oddi wrthyt.
Paid â gadael i ni anghofio
agosrwydd a gwres dy goflaid.
Paid â gadael i ni anghofio
dy aberth gwirfoddol drosom ni.

Gwnaethost gymaint drosom;
paid â gadael i ni anghofio dweud wrth y byd,
yn ddiolchgar,
mor fawr yw ein Duw.